**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog

18 Hydref 2023

Trydydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Annwyl Mark,

Fel y byddwch yn gwybod, roedd Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE (y Cytundeb) yn darparu ar gyfer sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn goruchwylio gweithrediad y Cytundeb ac unrhyw gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Gwnaethom gynrychioli'r Senedd yn nhrydydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar 3-4 Gorffennaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol drafodaethau pwysig ar faterion megis Protocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor, llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Ariannol, sicrhau cyflenwadau ynni, cydweithredu ar yr hinsawdd, mynediad y DU at raglen ymchwil Horizon, gwella symudedd dinasyddion rhwng y DU a'r UE, a chynnwys lleisiau dinasyddion trwy gydweithrediad cymdeithas sifil.

Gwnaethpwyd nifer o argymhellion i Gyngor Partneriaeth y Cytundeb yn ystod y sesiwn hon, gan gynnwys:

- Ailadrodd argymhelliad y grŵp trafod ar symudedd, a wnaed yn flaenorol i'r Cytundeb, y dylai'r UE a'r DU negodi cytundeb cynhwysfawr i ganiatáu i artistiaid deithio a gweithio yn yr UE a'r DU;

- A’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn mynegi unwaith eto’r ffaith ei fod yn condemnio’n ddiwyro y rhyfel yn Wcráin, y ffaith ei fod yn cefnogi Wcráin, a'r ffaith bod angen cydweithio rhwng yr UE a'r DU, yn enwedig mewn perthynas â pholisi cosbau effeithiol. Galwodd hefyd am 'ddwysâd yn y deialog' ar lwybrau ar gyfer cydweithredu a chydgysylltu yn y dyfodol ar faterion tramor a diogelwch yn gyffredinol rhwng y DU a'r UE. Mae wedi gofyn i’r Cyngor Partneriaeth adrodd yn ôl ar ei argymhelliad cyn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2023.

Ysgrifennwn atoch i dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniadau'r cyfarfod. Gobeithiwn y bydd y materion a drafodwyd o ddiddordeb i chi a byddwn yn parhau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am waith y Senedd gyda’r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac unrhyw feysydd a drafodwyd sydd o bwysigrwydd arbennig i Gymru.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Luke Fletcher

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Luke Fletcher AS
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg